# Wythnos Gwaith Ieuenctid

## Beth sy'n digwydd yng Ngorllewin Cymru

## 1 – 7 Tachwedd 2009



**Digwyddiadau gwych i bobl ifanc ar draws Cymru**

**GwaithIeuenctidCymru**

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cydlynwyd gan Gangen Marchnata a Strategaeth Gwaith Ieuenctid Ffôn: 029 2080 1344 E-bost: ywsmailbox@wales.gsi.gov.uk

# Diolch Sam.... Mae'n mynd i fod yn wych!

## Peidwch â methu Wythnos Gwaith Ieuenctid

Rhwng 1 – 7 Tachwedd, rydym yn cynnal llawer o ddigwyddiadau arbennig ar hyd a lled Cymru i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid – ac mae hynny ar ben y cannoedd ar gannoedd o weithgareddau, prosiectau a mentrau sydd fel arfer yn digwydd bob wythnos yng Nghymru!

Felly, os ydych chi'n berson ifanc sy'n edrych am rywbeth hynod ddiddorol a hwyliog i'w wneud, chwiliwch am y digwyddiadau yn eich ardal chi ac ewch yno!

Ewch yno, cewch amser mor dda, byddwch chi'n diolch i Sam am wneud i chi fynd!



## Felly, pwy yw Sam, rydyn ni'n eich clywed yn gofyn?

**Wel, mae Sam yn cynrychioli pob un ohonom sy'n ymwneud â Gwaith Ieuenctid.**

Nid yw Sam yn seren y byd pop, yn eicon chwaraeon, nac yn seren ar y teledu ond i nifer o bobl ifanc, mae Sam hyd yn oed yn fwy arbennig. Mae Sam yn Weithiwr Ieuenctid sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd, gwneud ffrindiau newydd a phrofi pethau newydd.

Gall Sam wneud gwahaniaeth!



## Allech chi fod y Sam nesaf?

**Mae miloedd o 'Sams' allan yno, yn gweithio'n ddiflino dros bobl ifanc dan eu gofal a gallech chi fod yn un o'r rhain.**

Mewn ffaith, ar y cyfrif diwethaf, roedd 20,000 'Sam' yn ysbrydoli dros 200,000 o bobl ifanc yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Ond mae angen mwy. Rydym yn chwilio am bobl ifanc gyda'r nodweddion cywir i fod yn 'Sam' newydd. Ydych chi'n gymwys i'r gwaith?

### Gyrfâu mewn Gwaith Ieuenctid

I gael mwy o wybodaeth am yrfâu a gwirfoddoli mewn gwaith ieuenctid, ewch i:

**www.DiolchSam.co.uk**

# Dewch i fwynhau'r sêr Affricanaidd!

**Gallaf ganu. Gallaf ddawnsio. Gallaf ganu offeryn. Gallaf berfformio. Gallaf syfrdanu cynulleidfa!**



Mae'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd yn Abertawe'n dangos y 'caniad' sydd yn yr 'Affricanaidd', gyda sioe dalentau i Affricanaidd ifanc lleol.

Mae hwn yn gyfle gwych i bobl ifainc ddangos eu doniau arbennig i bawb yn y gymdogaeth ac i'r gymdogaeth leol fwynhau noson wych o adloniant – yn null yr Affricanaidd!!

Dim ond un yw hwn o'r cannoedd o ddigwyddiadau rhagorol sydd ar waith yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid. Edrychwch i weld beth sy'n digwydd yn eich ardal chi.

**Diolch Sam.**
**Mae'n braf dod â phawb ynghyd gyda chân a dawns!**

# Pobl ifanc yn rhoi Llanymddyfri ar y map!

**Dychmygwch fap enfawr o Lanymddyfri sy'n gorchuddio'r llawr cyfan. Dychmygwch eich bod yn cael cyfle i roi eich stamp personol chi ar y map drwy ychwanegu paent a gludwaith fel ei fod yn adlewyrchu eich ardal, eich diddordebau a'ch bywyd.**

Yna dychmygwch fod gennych fwyd blasus, a bandiau lleol yn chwarae cerddoriaeth cŵl i ychwanegu mwy fyth o hwyl i'r noson. Wel, fydd ddim rhaid i bobl Llanymddyfri ddychmygu hyn – gallent ddod i YMCA Llanymddyfri a mwynhau'r profiad go iawn.



Dim ond un yw hwn o'r cannoedd o ddigwyddiadau rhagorol sydd ar waith yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid. Edrychwch i weld beth sy'n digwydd yn eich ardal chi.

**Diolch Sam.**
**Mae noson wych ar y map i chi.**

# Gallwch weld bron i 400 o ddigwyddiadau ar-lein

# DiolchSam.co.uk

Cofiwch, dim ond arweiniad yw'r rhestr yma i'r hyn sy'n digwydd yn ystod Wythnos Gwaith Oedolion. I weld y rhestr gyflawn ewch i **DiolchSam.co.uk** Fe welwch wybodaeth am bron i 400 o ddigwyddiadau, a bydd nifer o ddigwyddiadau newydd wedi'u hychwanegu ar ôl i'r arweiniad yma fynd i'r wasg.

Felly, i gael y rhestr ddiweddaraf o ddigwyddiadau – gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â Sam! Os na allwch weld unrhyw beth yn y rhestr sy'n digwydd yn eich cymdogaeth chi, cysylltwch â'r ardal isod, a byddwn yn eich cysylltu â'ch clybiau neu brosiectau lleol.

## Sector Gwirfoddol

### CWVYS

Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru yw'r corff ymbarél i fudiadau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys mudiadau ieuenctid unffurf a chenedlaethol a mudiadau ieuenctid lleol sy'n darparu amrediad eang o weithgareddau i bobl ifanc.

Ffôn: 029 2047 3498
www.cwvys.org.uk/cy

## Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol

### Abertawe
Ffôn: 01792 450833
www.abertawe.gov.uk

### Castell-nedd Port Talbot
Ffôn: 01639 861900
www.npt.gov.uk
www.in4txt.com

### Ceredigion
Ffôn: 01545 572352
www.ceredigion.gov.uk

### Sir Benfro
Ffôn: 01437 775234
www.pembrokeshire.gov.uk

### Sir Gaerfyrddin
Ffôn: 01545 572352
www.carmarthenshire.gov.uk

## ABERTAWE

### ABERTAWE

**Canolfan Canoldre**
Stryd Jockey, Abertawe SA1 1NS

**Cyfarfod Tîm Golygyddol ShoutTawe**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 5pm – 7pm.*
*Bob yn ail ddydd Mawrth.*
Mae gennym lefydd gwag ar y tîm Golygyddol ...felly dewch draw! Rydym bob amser yn chwilio am bobl ifanc sydd gyda diddordeb yn y cyfryngau fel ysgrifennu creadigol, ffotograffiaeth, cynhyrchu fideo a golygu ac sydd eisiau gwirfoddoli o fewn y prosiect ShoutTawe. Rydym hefyd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd achrededig a gwirfoddol drwy Brifysgol Ieuenctid a Gwirfoddolwyr y Mileniwm.
**Ffôn:** Paulo Madeira 01792 450845
**E-bost:** paulo.madeira@swansea.gov.uk
www.shouttawe.co.uk

**Canolfan Dylan Thomas**
1 Somerset Place, Abertawe SA1 1RR

**Mae gan y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd Dalent**
*Dydd Gwener 6 Tachwedd, 7.30pm.*
Noswaith o'r goreuon o gerddoriaeth, dawns a pherfformiad gan y gymuned a chyfeillion Affricanaidd ac Affricanaidd Caribïaidd. Caiff ei drefnu a'i feirniadu gan y bobl ifanc eu hunain. Tocynnau ar gael wrth y drws am 3 i oedolion a 2 i blant/pobl ifanc/consesiwn. Cysylltwch ag Emily Robertson ar 01792 470298 am fwy o wybodaeth, i gymryd rhan yn y Fforwm Ieuenctid neu i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.
**Ffôn:** Emily Robertson 01792 470298
**E-bost:** emily.robertson@africancommunitycentre.org.uk

**I'w gadarnhau**

**Pen-blwydd Hapus 1af Banc Ieuenctid Abertawe**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6pm.*
*Gwahoddedigion yn unig.*
'NI'N TALU, CHI'N ELWA' – Panel pobl ifanc yw Banc Ieuenctid Abertawe sy'n rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc eraill i sefydlu neu ddatblygu prosiectau dan arweiniad pobl ifanc. Ar y 4ydd o Dachwedd 2009, byddwn yn dathlu ein blwyddyn gyntaf yn gweithredu. Eich Gweledigaeth, Eich Arian, Eich Abertawe... Beth fyddech chi'n ei wneud??? Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Flik Walls 01792 544030
**E-bost:** felicitie_walls@scvs.org.uk

**Info-Nation**
47 Ffordd y Brenin, Abertawe SA1 5HG

**Galw heibio CAB**
*Dydd Mawrth, 1pm – 3pm.*
Canolfan galw heibio yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar ddyled, nawdd cymdeithasol, cartrefi a hawliau cyfreithiol bob Dydd Mawrth
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**Galw heibio Gyrfau**
*Dydd Mawrth, 2pm – 4pm.*
Canolfan galw heibio sydd yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar addysg, hyfforddi a materion cyflogaeth bob dydd Mawrth.
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**Off It**
*Dydd Mawrth, 2.30pm – 4.30pm.*
Canolfan galw heibio, cyngor a chefnogaeth i ymwneud a chyffuriau, alcohol ac unrhyw gaethiwed eraill bob dydd Mawrth.
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**RAY (Leihau Camdriniaeth i'r Ieuenctid)**
*Dydd Mawrth, 3pm – 5pm.*
Canolfan galw heibio i bobl ifanc wedi ei heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig, fel llygad dyst, dioddefwr neu gyflawnwr. Ar agor Dydd Mawrth.
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**Gwirfoddolwyr Galw Heibio CGGA**
*Dydd Mercher, 3pm – 5pm.*
Bydd cyngor arbenigol a chefnogaeth ar gael i'ch helpu dod o hyd i'r cyfleoedd gwirfoddoli gorau yn Abertawe bob Dydd Mercher 3pm-5pm. Dewch draw am sgwrs gyda ni!
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**Clinig Rhywiol Ieuenctid**
*Dydd Mercher, 3pm – 5pm.*
Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar bynciau iechyd rhywiol bob dydd Mercher 3pm-5pm. Nyrsys cyfeillgar sydd wedi eu cofrestru i'r GIG.
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**Clinig GUM Ieuenctid**
*Dydd Iau a Dydd Gwener, 2pm – 5pm.*
Canolfan galw heibio sy'n sgrinio am glefydau cysylltiad rhywiol – pob Iau a Gwener 2pm-5pm. Mae'r ddarpariaeth yng ngofal nyrsys cofrestredig GIG sydd yn gyfeillgar tuag at bobl ifanc. Am ddim ac yn gyfrinachol!
**Ffôn:** Toni O'Hara 01972 484010
**E-bost:** toni.o'hara@swansea.gov.uk
www.i-nation.org.uk

**Teledu Boombox**
*Dydd Gwener, 3pm – 5.30pm.*
Rhaglen Gylchgrawn dan arweiniad pobl ifanc Abertawe ydi Teledu Boombox. Amcan y rhaglen yw rhoi gwybodaeth i bobi ifanc Abertawe mewn ffordd hwyliog ac addysgiadol drwy ddefnyddio gwefan boblogaidd i ddarlledu'r rhaglen. Mae'r tîm wedi sefydlu stiwdio eu hunain ac maen nhw hwnt ac yma yn ffilmio storiâu i'r sioe gydol y flwyddyn. Maen nhw angen: Cyflwynwyr, Gweithredwyr Camera, Gohebwyr, Ymchwilwyr ac Ysgrifenwyr Sgriptiau.
**Ffôn:** Jon Bevis 01792 484010
**E-bost:** jon.bevis@swansea.gov.uk
www.boombox.org.uk

### CLYDACH

**Canolfan Ieuenctid Clydach**
Heol Gellionnen, Clydach, Abertawe SA6 5HE

**Gweithgareddau Clwb Ieuenctid**
*Dydd Mercher16 Medi – Dydd Gwener 18 Rhagfyr, 5pm.*
Bydd Clwb Ieuenctid Clydach yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau i bobl ifanc yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid. Byddwn ar agor ar nosweithiau Llun a Mercher i weithgareddau cymdeithasol. Bydd Clwb trwy gyfrwng y Gymraeg yn agor ar nos

Iau. Cewch alw i mewn ar brynhawniau Mawrth a Gwener lle bydd gweithwyr ieuenctid yno i drafod materion gyda phobl ifanc a'r gymuned.

**Ffôn:** Steve Milton 07796 275042
**E-bost:** steve.milton@swansea.gov.uk

## GORSEINON

**Canolfan Rhwydwaith Ieuenctid Gorseinon**
Heol Pontarddulais, Gorseinon SA4 4FE

### Bang, Sparcl a Jam

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 5pm – 10pm.*
Os ydych chi rhwng 11 a 25 oed ac yn byw yn ardal Abertawe, dewch draw i'r digwyddiad yma. Fi fydd yna domen o bethau yn mynd ymlaen, gan gynnwys: sglefrio dan do, ramp BMX, rheiliau a bocsys hwyl, grwpiau byw, Troellwr, breakdance a dawnsio stryd, gwobrau a thystysgrifau, aduniad Profiad Big Brother Abertawe, dathliad a darnau o ffilm, coelcerth anferth, barbeciw, gemau gwirion a gwisg ffansi.

**Ffôn:** Gavin Evans 07810 506284
**E-bost:** gavin.evans@swansea.gov.uk

### Barbeciw a hamddena

*Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 11am – 5pm.*
Dewch draw i gefnogi eich tîm yn ein prynhawn chwaraeon a barbeciw! Byddwn yn gwylio Cymru yn erbyn Seland Newydd yn ogystal ag Abertawe yn erbyn Caerdydd. Mi ddylai fod yn brynhawn o hwyl!

**Ffôn:** Angela Payne 01792 892179
**E-bost:** angela.payne@swansea.gov.uk

### Codi Arian i Elusen

*Dydd Sul 8 Tachwedd, 11am – 5pm.*
Mae pobl ifanc Pontarddulais yn ceisio codi arian i dalu am oleuadau i'w cae chwarae awyr agored. Mi fyddwn yn gwned hyn drwy olchi ceir yn y gymuned a sawl gweithgaredd arall. Dewch draw i'n cefnogi!

**Ffôn:** Jo MacQueen 01792 892179
**E-bost:** Joanna.MacQueen@swansea.gov.uk

## PONTARDAWE

**Lleoliad i'w gadarnhau**

### Prosiect PONTY

*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6pm – 8pm.*
Noson ar gyfer pobl ifanc ardal Pontardawe/Ystalyfera i holi cwestiynau i Uwch swyddogion Urdd Gobaith Cymru. Gallwch holi ar faterion yr ydych chi eisiau atebion iddynt.

**Ffôn:** Rhodri Jones 07976 003339
**E-bost:** rhodrihuw@urdd.org / www.urdd.org

## LEDLED Y SIR ABERTAWE

**Canolfan Canoldre**
Stryd Jockey, Abertawe SA1 1NS

### Shouttawe.co.uk

*Agored drwy'r flwyddyn.*
Oes gyda chi stori, oes rhywbeth yn digwydd yn eich ardal chi neu a ydych eisiau gadael i bawb wybod beth yr ydych yn ei wneud? Anfonwch unrhyw wybodaeth i ni i youth@swansea.gov.uk a byddwn yn ei roi ar ein gwefan www.shouttawe.co.uk am ddim. Gwefan 'Beth sy 'mlaen' i bobl ifanc Abertawe, ac yn cael ei rhedeg gan bobl ifanc yw Shouttawe.co.uk ac arni ceir gwybodaeth am amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau.

**Ffôn:** Paulo Madeira 01792 450845
**E-bost:** paulo.madeira@swansea.gov.uk
www.shouttawe.co.uk

## AMRYWIOL CLYBIAU IEUENCTID YN ABERTAWE

### Rhowch gynnig ar Ganolfannau Ieuenctid yn Abertawe

Rhowch gynnig ar glybiau ieuenctid yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid!

**Blaenymaes CI**
*Dydd Llun Thurs 6.30pm – 9pm;*
*Dydd Mercher 5.30pm – 6.30pm (Grŵp merched);*
*Dydd Mercher 6.30pm – 8pm (Grŵp Dawnsio);*
*Dydd mawrth 6pm – 8pm (Grŵp Gwobr Dug Caeredin).*

**Bonymaen CI**
*Dydd Mawrth, 6pm – 8.30pm.*

**Clydach CI**
*Dydd Llun a Dydd Mercher, 6.30pm – 9pm.*

**Gorseinon CI**
*Dydd Llun, Dydd Mercher a Dydd Iau, 5pm – 9pm.*

**Montana CI**
*Dydd Mercher, 5.30pm – 9pm.*

**St Thomas CI**
*Dydd Llun a Dydd Mercher, 6.30pm – 9pm.*

**Stadwen CI**
*Dydd Mawrth a Dydd Mercher, 6.30pm – 9pm.*

**Townhill CI**
*Dydd llun a Dydd Mercher, 6.30pm – 9pm.*
*Lansio Canolfan Gwobr Dug Caeredin ar draws Abertawe.*

**Ffôn:** Gareth Jones 01792 450830
**E-bost:** youth.service@swansea.gov.uk
www.shouttawe.co.uk

# CASTELL NEDD PORT TALBOT

## CASTELL-NEDD

**Prosiect Digartrefedd Clarewood**
2 Heol Cimla, Castell-nedd SA11 3PW

### Diwrnod Agored Clarewood

*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 11am – 6.30pm.*
Prosiect i bobl ifanc digartref yw Clarewood sy'n cynnig cefnogaeth tai i bobl ifanc rhwng 16 a 25. Rydym eisiau codi proffil y prosiect a dangos y gwaith da mae'r bobl ifanc wedi ei gyflawni yn ein Prosiect Garddio hyd yn hyn. I wneud hyn rydym am wahodd asiantaethau ac unigolion lleol i'r unedau RhyCA (OCN) a sefydlwyd gennym er mwyn arddangos ein talentau a'n llwyddiannau, a chodi ymwybyddiaeth am faterion cymdeithasol.

**Ffôn:** Simon Jones 01639 633439 / 07789 997818
**E-bost:** simon.jones@gwalia.com
www.gwalia.com

## CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Clwstwr Canolfan Ieuenctid**

### Taith i Gastell Parc Margam

*Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 11am – 5pm.*
Taith i Gastell Parc Margam i edrych ar ei hanes a'i 'breswylwyr'.

**Ffôn:** Kay Davies 01639 790980
**E-bost:** k.davies5@npt.gov.uk

## CWMAFAN

**Gorsaf Radio Afan FM, Llyfrgell Cwmafan**
Heol Depot, Cwmafan, Port Talbot

### Radio Idol

*Dydd Llun 5 Hydref – Dydd Llun 2 Tachwedd.*
Mae'r orsaf radio i bobl ifanc, ac sy'n cael ei rhedeg gan bobol ifanc, yn chwilio am berson ifanc i ymuno â'r tîm cyflwyno i gyflwyno rhaglen radio 2 awr wythnosol sy'n trafod pynciau o ddiddordeb i bobl ifanc fel cerddoriaeth, ffilmiau, y rhyngrwyd a phryderon fel ysgol, arian, perthnasau a materion lleol a chymdeithas.

**Ffôn:** Emma Culleton, Jason Haeney 01792 326762
**E-bost:** e.culleton@npt.gov.uk / j.haeney@npt.gov.uk
www.yspace.tk / www.npt.gov.uk

## LLANDARSI

**Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot**
Canolfan y Gymuned Llandarsi, Rhodfa Prettyman, Llandarsi SA10 6HZ

### Nosweithiau Agored Clwb Ieuenctid

*Dydd Mercher 2 Medi i Ddydd Sul 6 Medi, 6.30pm.*
Yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid bydd canolfannau ieuenctid yn cynnal nosweithiau agored i rieni, aelodau o'r gymuned a darpar ddefnyddwyr. Hoffem roi cyfle i chi brofi'r gweithgareddau a'r cyfleoedd cyffrous sydd ar gael i'r bobl ifanc sy'n mynychu, yn ogystal â rhoi cyfle i aelodau'r ganolfan ieuenctid ddangos yr hyn maent wedi'i gyflawni.

**Ffôn:** Jason Haeney 01792 326760
**E-bost:** youth.service@npt.gov.uk

### Allech chi fod y Sam nesaf?

*Dydd Sul 1 Tachwedd i Ddydd Iau 5 Tachwedd, 9am. Yn dibynnu ar amserlenni ysgol a choleg.*
Dewch i weld beth sy'n gwneud Gweithiwr Ieuenctid. Ymunwch mewn gweithgareddau a fydd yn eich helpu i benderfynu allech chi weithio gyda phobl ifanc fel chi'ch hun.

**Ffôn:** Jan Jones 01792 326762
**E-bost:** j.jones10@npt.gov.uk

## PORT TALBOT

**Cyngor Castell-nedd Port Talbot**
Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

### Cyfarfod Cabinet

*Dydd Mercher 16 Medi, 6pm – 8pm.*
*Cyfarfodydd misol parhaus.*
Bydd Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot yn cynnal cyfarfod Cabinet yn yr Ystafelloedd Pwyllgor, Swyddfeydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Bydd pobl ifanc o Gyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot ac aelodau / cynrychiolwyr o fforymau ieuenctid eraill ledled Castell-nedd Port Talbot yn mynychu'r cyfarfod i gefnogi materion pobl ifanc fydd yn cael eu trafod a'u dadlau gyda chynghorwyr lleol ac aelodau'r Cabinet.

**Ffôn:** Janet Weaver 07855 430966
**E-bost:** j.weaver@npt.gov.uk

## LLEOLIADAU AMRYWIOL AR DRAWS CASTELL-NEDD PORT TALBOT

### Cyfarfod y Brodorion

Ydych chi'n gwybod unrhyw storiâu arswydus? Ydych chi'n gwybod hanes yr ardal lle rydach chi'n byw? Oes yna ymddwyn bwganllyd yng Nghastell Parc Margam? Ymunwch a ni yn y mannau canlynol i ffeindio allan.

**Ysgubor Hengwrt**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 5pm – 7pm.*

**Neuadd Gymdeithasol Cimla**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7.30pm – 9pm.*

**YMCA Castell-nedd**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 6.30pm – 8.30pm.*

**Canolfan Hyfforddiant Glynneath**
*Dydd Iau 5 Tachwedd, 6.30pm – 8.30pm.*

**Ffôn:** Kay Davies 01639 790980
**E-bost:** k.davies5@npt.gov.uk

# POWYS

## YSTRADGYNLAIS

**Canolfan Ieuenctid Ystradgynlais**
Hendreladus, Heol Aberhonddu, Ystradgynlais, Powys SA9 1SE

### Dweud eich dweud

*Dydd Llun 2 Tachwedd, 7pm – 8.30pm.*
Beth am ail lansio'r fforwm ieuenctid! Dewch i ddweud eich dweud ar faterion sy'n bwysig i chi. Dewch i gwrdd â gweithwyr ieuenctid a'r heddlu lleol i drafod eich pryderon a'ch



# Amddiffyn eich hawliau

**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu fod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru hawl sylfaenol i gael y cyfle i fyw bywyd hapus a chyflawn.**

Yn 2004, euthum ati i fabwysiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ar gyfer ein gwaith llunio polisïau i gyd i blant a phobl ifainc.

Dan y CCUHP bydd hawl gan bob person ifanc dderbyn addysg o ansawdd da, mynediad i wybodaeth gywir a llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

- Addysg o ansawdd da (Erthyglau 28 a 29)
- Mynediad i wybodaeth gywir (Erthyglau 13 ac 17)
- Cyfranogi rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12)
- Gofal iechyd a safon dda o fyw (Erthyglau 24 a 27)
- Chwarae a hamdden (Erthyglau 15 a 31)
- Defnyddio iaith ac arferion eich teulu (Erthygl 31)
- Triniaeth deg yn y system gyfiawnder troseddol (Erthyglau 37 a 40)
- Gwybod beth yw'r hawliau hynny (Erthygl 42).

## Wythnos Gwaith Ieuenctid yn rhoi tic ymhob blwch

Felly, gallwch weld sut y gall Wythnos Gwaith Ieuenctid, a Gwaith Ieuenctid yn gyffredinol, chwarae rôl mor bwysig i'n helpu oll i gyflawni ein hymrwymiad i bobl ifainc Cymru.

Mae digwyddiadau fel hyn yn rhoi'r cyfle i bobl ifainc ddysgu sgiliau newydd, cael gafael ar gefnogaeth a gwybodaeth am addysg, gofal iechyd, a mynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt drwy gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp a fforymau.

I gael rhagor o wybodaeth am y CCUHP ac i gael rhestr lawn o erthyglau'r confensiwn, edrychwch ar:

www.cliconline.co.uk/uncrc_cymraeg

Clic yw'r Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth Genedlaethol i bobl ifainc 11-25 yng Nghymru ac mae wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Pwrpas y prosiect yw rhoi gwybodaeth a chyngor mewn fformatau hawdd eu defnyddio i helpu pobl ifainc i wneud penderfyniadau deallus a sicrhau bod hwn ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau drwy Gymru er mwyn sicrhau fod pobl ifainc yn gallu cael gafael arno.

syniadau. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Marcia Davies 01639 843711
**E-bost:** gurnosyc@powys.gov.uk
www.powys.gov.uk

## SIR BENFRO

### ABERDAUGLEDDAU

**Yr Ystafell Ieuenctid**
Ysgol Aberdaugleddau, Heol Steynton, Aberdaugleddau SA73 1AE

**Cystadleuaeth Gelf, wedi ei threfnu gan Grŵp Wobrwyo XL Silver**
*Dydd Llun 2 Tachwedd – Dydd Gwener 6 Tachwedd, 9am – 4.30pm.*
Cystadleuaeth Gelf i grwpiau o bob oed. Byddwch yn greadigol â chreu darlun sydd yn rhoi blas o beth mae gwaith ieuenctid yn ei gynnig. Gallwch ymddangos eich syniad ar bapur A4 drwy ddull arlunio, paentio, gludwaith neu gartŵn. Bydd ffurflenni cais i'w cael gan eich athrawon yn yr Ystafell Ieuenctid, rhaid cyflwyno eich cynllun erbyn 12fed o Hydref. Bydd gwobrau i'r ymgeisydd gorau ym mhob categori oedran. Bydd y cynlluniau yn cael eu harddangos yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid.

**Ffôn:** Suzie Ross 01646 690021
**E-bost:** suzie.ross@pembrokeshire.gov.uk

### ABERGWAUN

**Ysgol Bro Gwaun**
Heol Dyfed, Abergwaun SA65 9DT

**Cwis Rhyngweithiol**
*Dydd Mawrth 2 Mehefin i Ddydd Sadwrn 6 Mehefin, 9am – 3pm.*
Galwch yn ein cwis rhyngweithiol dwyieithog ar Waith Ieuenctid, sy'n hyrwyddo nodau ac amcanion ein gwasanaeth.

**Ffôn:** Sian Fulthorpe 07920 702425
**E-bost:** sian.fulthorpe@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

### ARBERTH

**Gwesty Plas Hyfryd**
Moorfield Road, Arberth, Sir Benfro SA67 7AB

**Amser Cwestiynau**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 5pm – 8pm.*
Dewch i ymuno yn yr hwyl yn ein digwyddiad Amser Cwestiynau sy'n agored i bobl ifanc y sir rhwng 11 a 25 mlwydd oed ac sy'n cael ei redeg gan Aelodau Ifanc y Cynulliad. Bydd y panel Amser Cwestiynau yn cynnwys unigolion allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yn Sir Benfro, gan gynnwys aelodau'r Cabinet sydd â chyfrifoldebau dros wasanaethau allweddol gan gynnwys Hamdden, Trafnidiaeth ac Iechyd. Bydd y panel yn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Rose Davis 01646 680863
**E-bost:** rose.davis@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

### CANOLFANNAU CYMUNEDOL AMRYWIOL

**Ieuenctid Sir Benfro – Clybiau a Phrosiectau yng Ngogledd Sir Benfro**
Popworks, Parc-y-Shwt, Abergwaun SA65 9DT

**Ieuenctid Drwy'r Byd**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 7pm – 9pm.*
Gofynnir i bob clwb/grŵp ieuenctid ddewis gwlad i ganolbwyntio arni gan roi cyflwyniad byr am yr hyn y maent wedi ei ddysgu am fywydau pobl ifanc yn y wlad honno (ee bwyd, dillad, economi, teulu, ysgol, gwaith). Byddwn hefyd yn darparu lluniaeth o fwydydd o'r gwahanol wledydd.

**Ffôn:** Liz Griffiths 01437 776635
**E-bost:** liz.griffiths@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

### DINBYCH-Y-PYSGOD

**Canolfan Ieuenctid Dinbych-y-pysgod**
Rhodfa Greenhill, Dinbych-y-pysgod SA70 7LB

**Mwy na thennis bwrdd a pŵl**
*Dydd Llun 2 Tachwedd – Dydd Iau 5 Tachwedd, 6.30pm – 9pm.*
Yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid, bydd mynediad am ddim i bobl ifanc yng Nghlwb Ieuenctid Dinbych-y-pysgod. Byddwn yn arddangos gweithgareddau a phrosiectau y buom yn ymwneud â nhw dros y tair blynedd ddiwethaf. Bydd gweithwyr ieuenctid a gweithwyr o fewn ysgolion yma i egluro digwyddiadau a'ch hysbysu pryd bydd y gweithgareddau ar gael eto neu roi gwybod pryd y gallwch gymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg.

**Ffôn:** Anthony Harris 07818 011660
**E-bost:** anthony.harris@pembrokeshire.gov.uk

### DOC PENFRO

**Canolfan Ieuenctid Doc Penfro**
Heol Bush, Doc Penfro SA72 6HQ

**Bwyd o amgylch y byd / Cyfarfod Cyfnewid Ieuenctid**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd i Ddydd Iau 5 Tachwedd, 6pm – 8pm. Dydd Mawrth a Dydd Iau 6pm – 8pm.*
Nosweithiau themâu diwylliannol. Bwyd am ddim o bob cwr o'r byd. Bwyd Tsieineaidd, Indiaidd, Eidalaidd, Ffrengig a llawer mwy. Dysgwch am ffeithiau ac arferion gwledydd eraill. Rydym hefyd eisiau cwrdd pobl ifanc sy'n awyddus i gymryd rhan mewn taith gyfnewid ieuenctid i wlad arall, felly dewch i lenwi'ch boliau gyda digonedd o fwyd blasus ac i awgrymu lle i ymweld.

**Ffôn:** Matt Done 01646 682823 / 07768 291525
**E-bost:** matthew.done@pembrokeshire.gov.uk

### HUBBERSTON

**Canolfan Ieuenctid Hubberston**
Heol yr Eglwys, Hubberston, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3PL

**Beth sy 'na i chi?**
*Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 6pm – 10pm.*
'Beth sy 'na i chi?' yw cyfle i chi ddarganfod mwy am y gweithgareddau sydd ar gynnig i bobl ifanc yn Aberdaugleddau. Bydd pobl o glybiau, grwpiau a mudiadau gwahanol yno i ateb unrhyw gwestiynau a dangos beth sydd ganddynt i'w gynnig. Mae'r digwyddiad am ddim a falle y sylweddolwch fod yna fwy yn digwydd nag oeddech chi'n meddwl.

**Ffôn:** Nicholas Hudd 01646 693216
**E-bost:** nick.hudd@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

### HWLFFORDD

**Canolfan Ieuenctid Y Garej**
Heol Dew, Hwlffordd SA61 1ST

**Wal Graffiti Cymuned**
*Dydd Llun 2 Tachwedd – Dydd gwener 6 Tachwedd, 7pm – 9pm.*
Wedi cwblhau dau danlwybr yn Hwlffordd, bydd y Garej yn parhau ei gynllun Graffiti Cymuned. Yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid, byddwn yn cynllunio'r darn nesaf o gelfwaith i brif danlwybrau Hwlffordd. Bydd yn gyfle i bobl ifanc fod yn greadigol drwy fynegi syniadau a chynlluniau i'r cynllun graffiti gydag arlunydd graffiti proffesiynol.

**Ffôn:** Mel Lear 01437 769523
**E-bost:** melissa.lear@pembrokeshire.gov.uk

**Neuadd y Sir**
Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP

**Arddangosfa Gwaith Ieuenctid Sir Benfro**
*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 9am – 4pm.*
Dewch i weld arddangosfa o waith ieuenctid yng nghyntedd Neuadd y Sir, sydd ar gael i weithwyr cyngor y sir ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld. Bydd yr arddangosfa yn codi ymwybyddiaeth am yr hyn sydd gan waith ieuenctid i'w gynnig i bobl ifanc, yn ogystal â chyfleoedd i oedolion gymryd rhan fel gweithwyr ieuenctid.

**Ffôn:** Eirian Evans 01437 775234
**E-bost:** eirian.evans@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

**Cynhadledd Flynyddol Gwaith Ieuenctid**
*Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 9am – 1.30pm.*
'Un Gyllell: Un Bywyd' – Y gynhadledd flynyddol Gwaith Ieuenctid, yn rhannu arfer da gyda'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cyfoes a gwybodaeth ar droseddau cyllyll yn y DU.

**Ffôn:** Heidi Holland 01437 775845
**E-bost:** heidi.holland@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

---

**Ysgol Syr Thomas Picton**
Queensway, Hwlffordd SA61 2NX

**Gweithgareddau Blue Lagoon**
*Dydd Sul 1 Tachwedd – Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 1.20pm – 2.10pm.*
Mae gennym amrediad o weithgareddau llawn hwyl ar eich cyfer yn Narpariaeth Galw Heibio'r Blue Lagoon gydol yr wythnos. Bydd hyn yn cynnig amrediad o fid yn DJio i farddoniaeth. Bydd nifer o'r gweithgareddau yn cael eu rhedeg gan weithwyr ieuenctid gyda chymorth cyfoedion mentora Blwyddyn 10. Dewch draw i gael hwyl!

**Ffôn:** John King 01437 765394
**E-bost:** john.king@pembrokeshire.gov.uk

---

**Ysgol Tasker Milward**
Rhodfa Portfield, Hwlffordd SA61 1EQ

**Gweithgareddau Wythnos Gwaith Ieuenctid**
*Dydd Sul 1 Tachwedd – Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 12pm – 5pm.*
Dewch draw i ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys wal ddringo symudol, byrddau graffiti, gweithgareddau nawdd i gasglu arian i Daith Gwlad yr Iâ, prosiectau coginio, gemau cydweithio a llawer mwy!

**Ffôn:** Suzanne Moses 01437 771375
**E-bost:** sue.moses@pembrokeshire.gov.uk

---

**Y Pafiliwn, Llwyn Helyg**
Llwyn Helyg, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 4BW

**Noson Cyflwyno Ieuenctid Sir Benfro**
*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 7pm – 9pm*
Mae Noson Cyflwyno Ieuenctid Sir Benfro yn gyfle i bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid fel ei gilydd ddod ynghyd o bob cwr o'r sir i rannu a dathlu'r gwaith a wnaethant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddir gwobrau i unigolion a grwpiau am ragoriaeth ac arloesi, cyfraniad gwerthfawr ac eithriadol a chymryd rhan yn rhaglen Digwyddiadau Ieuenctid Sir Benfro. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.

**Ffôn:** Chris Charlton 01437 775822
**E-bost:** chris.charlton@pembrokeshire.gov.uk

## NIWGWL

**Canolfan Addysg Awyr Agored YMCA**
Niwgwl, Pen y Cwm SA62 6JZ

### Profi'r Antur

*Dydd Sadwrn 31 Hydref, 12pm – 5pm.*
Yn galw pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid! Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a YMCA OEC Niwgwl yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth am waith ieuenctid drwy weithgareddau awyr agored. Ymunwch â ni am brynhawn o fwyd, gweithdai, cwrs rhaffau uchel, wal ddringo a gweithgareddau adeiladu tîm. Dewch am sbort a sbri, cwrdd â phobl newydd ac i fagu hyder. Peidiwch anghofio eich gwisgoedd Calan Gaeaf! Canol dydd hyd 5pm ar 31ain Hydref. Ffoniwch i neilltuo lle heddiw!
**Ffôn:** Krista O'Brien 01437 720959
**E-bost:** krista@newgaleymca.co.uk
www.newgaleymca.com

## PENFRO

**Ysgol Gyfun Penfro**
Bush, Penfro SA71 4RL

### Gwaith Ieuenctid yn yr Ysgol

*Dydd Sul 1 Tachwedd i Ddydd Sul 8 Tachwedd, 9am – 3pm. Bob diwrnod o'r wythnos.*
Am wythnos byddwn yn dangos gwaith a wnaed gan rai o ddisgyblion Ysgol Penfro wrth weithio gyda Gweithwyr Ieuenctid. Bydd y pethau i'w gweld yn cynnwys dillad a ailgylchwyd ac a ailwampiwyd a lluniau o'r prosiectau gwych sy'n digwydd yn yr ysgol, yn ogystal â gwobr i'r poster gorau i hysbysebu gwaith ieuenctid yn Ysgol Penfro.
**Ffôn:** Melody Abbott 07979 241816
**E-bost:** melody.abbott@pembrokeshire.gov.uk

## TYDDEWI

**Ysgol Dewi Sant**
Tyddewi SA62 6QH

### Cwis Rhyngweithiol

*Dydd Llun 2 Tachwedd i Ddydd Gwener 6 Tachwedd, 9am – 3pm.*
Galwch yn ein cwis rhyngweithiol dwyieithog ar Waith Ieuenctid, sy'n hyrwyddo nodau ac amcanion ein gwasanaeth.
**Ffôn:** Chris Davies 07810 791461
**E-bost:** chris.davies@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshireyouthzone.co.uk

# SIR GAERFYRDDIN

## CAERFYRDDIN

**Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin**
7 Heol y Frenhines, Caerfyrddin SA31 1JR

### Wythnos Gwaith Ieuenctid @ Dr M'z

*Dydd Llun 2 Tachwedd – Dydd Sadwrn 7 Tachwedd, 2pm – 8pm.*
Fyddech chi'n hoffi dysgu cymysgu recordiau? Rydym yn cynnal sesiynau DJio nos Lun, Tachwedd 2il, 6pm-8pm. Ar ddydd Mawrth y 3ydd, 2pm-6pm rydym yn cynnal diwrnod agored i hysbysebu'r Prosiect, cyraeddiadau'r bobl ifanc a hysbysebu ein bod yn symud i adeilad newydd. Ar ddydd Iau'r 5ed, 4pm-7pm, dewch i gynllunio ac argraffu crys-T! Dydd Sadwrn y 7fed yw diwrnod coginio iach. Dewch i ymuno â ni!
**Ffôn:** Gayle Harris / Jane Davies 01267 222786
**E-bost:** office@drmz.co.uk
www.drmz.co.uk

### Symud Ymlaen

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 10am.*
Mae'r rhaglen wedi ei gynllunio i bobl ifanc asesu eu rhwystrau dysgu a'u cynorthwyo i ganfod eu sgiliau a'u cryfderau. Mae'r digwyddiad yma yn digwydd mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru Gorllewin.
**Ffôn:** Sally Bennett 01267 267801
**E-bost:** SBennett@carmarthenshire.gov.uk

### Bwyta'n Iach

*Dydd Gwener 6 Tachwedd, 10am.*
Mae yna raglen bwyta'n iach yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth a thîm iechyd ieuenctid Caerfyrddin – yn eich annog i gynnal ffordd o fyw iach. Ymunwch a ni i gael cyngor ar ffyrdd hwyliog o gadw'n iach!
**Ffôn:** Sally Bennett 01267 267801
**E-bost:** SBennett@carmarthenshire.gov.uk

## LLANELLI

**Canolfan Ieuenctid Bwlch**
Dafen Row, Morfa, Llanelli SA15 2BL

### Beicio Mynydd oddi ar y ffordd

*Dydd Gwener 25 Medi – Dydd Gwener 6 Tachwedd, 10am – 5pm.*
*Dydd Iau a Dydd Gwener.*
RhyCA mewn beicio mynydd. Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerfyrddin yn cyflwyno pobl ifanc i un o'r campau mwyaf cynyddol – beicio mynydd. Bydd gweithwyr ieuenctid yn cynnal cwrs trwyddedig 6 wythnos sydd nid yn unig yn trafod sgiliau oddi ar y ffordd ond hefyd, llywio, atgyweirio llwybr beicio, senario argyfwng ac yn y blaen. Mae'r cwrs yn diweddu hefo taith nos gyffrous a chynhyrfus.
**Ffôn:** Huw Thomas 01554 749782
**E-bost:** HuThomas@carmarthenshire.gov.uk

### Rhowch fywyd newydd i'ch beic

*Dydd Llun 2 Tachwedd & Dydd Mawrth 3 Tachwedd, 10am – 4pm.*
Rhowch fywyd newydd i'ch beic! I'r rhai sydd yn hoffi cael y mwyaf allan o'i beiciau mynydd oddi ar y ffordd. Mae cwrs sydd wedi ei gefnogi gan RhyCA yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Ieuenctid Bwlch. Er mwyn i feic weithio yn effeithiol, rhaid ei gynnal. Gwnaiff y rhaglen hon ddangos i chi sut i gynnal eich beic a'i drwsio i sicrhau bod y beic yn rhedeg yn esmwyth.
**Ffôn:** Huw Thomas 01554 749782
**E-bost:** HuThomas@carmarthenshire.gov.uk

**Parc y Scarlets**
Parc Pemberton, Llanelli SA14 9UZ

### Fy Nghenhedlaeth I – Cynhadledd Ieuenctid ar Hawliau Plant

*Dydd Mercher 4 Tachwedd, 9am – 2.30pm.*
Bydd Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn cynnal Cynhadledd Ieuenctid Flynyddol. 'Fy Nghenhedlaeth I' yw teitl cynhadledd eleni ac mae'n dathlu 20 mlynedd o Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd cyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed drafod Hawliau Plant a'r materion cysylltiol. Siaradwyr gwadd yn cynnwys y Cynghorydd Meryl Gravell, Pleidwraig Pobl Ifanc. Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Sarah Powell 01267 224558 / 07748 154672
**E-bost:** SJPowell@carmarthenshire.gov.uk
www.youthsirgar.org.uk

## LLANYMDDYFRI

**YMCA Llanymddyfri**
Tŷ Gerwyn, Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri SA20 0AB

### Mapio'n Lle

*Dydd Iau 5 Tachwedd, 7.30pm – 10pm.*
Rydym am greu map enfawr o'n tref – yn dangos lle'r ydym yn byw, yn mynd i'r ysgol, yn cael hwyl a gwneud chwaraeon, ac yn gwahodd llawer o bobl i ddod i'w weld! Bydd cerddoriaeth gan rai o'n hoff fandiau lleol a byddwn yn cynhyrchu bwyd anhygoel o gegin enwog YMCA Llanymddyfri!
**Ffôn:** Jill Tatman 01550 721346 / 07977 564530
**E-bost:** jilltatman@yahoo.com

## RHYDAMAN

**Prosiect Stryd Ieuenctid**
Neuadd Les, Stryd y Gwynt, Rhydaman SA18 3DN

### Recordio Cerddoriaeth

*Dydd Llun 2 Tachwedd – Dydd Gwener 6 Tachwedd, 10am.*
Gweithgareddau yn cynnig amrediad o recordio cerddoriaeth, amrywiol sesiynau galw heibio, prosiect cylchlythyr, hyfforddiant cerddoriaeth, cymorth astudio, gweithdy ymwybyddiaeth cyffuriau, ymarferion band, dweud stori ddigidol a rhaglen 'Youth Matters'. Ymunwch a ni a chymerwch ran!
**Ffôn:** Barry Roberts 01269 596956
**E-bost:** barryroberts@carmarthenshire.gov.uk

### Iechyd Da

*Dydd Llun 2 Tachwedd, 10am.*
Dewch draw i ddarganfod amrediad o faterion yn ymwneud ag iechyd ieuenctid. Bydd cyfle i chi holi cwestiynau a chywain gwybodaeth.
**Ffôn:** Gareth Bennett 01269 596956
**E-bost:** GBennett@carmarthenshire.gov.uk

# CYMRU GYFAN

### Eich Llais, Eich Dewis – Gweithdai cymryd rhan

*Dydd Sul 1 Chwefror i Ddydd Mawrth 1 Rhagfyr, 9am – 11am.*
Gallwn ddod draw at eich grŵp pryd bynnag rydych yn cyfarfod fel arfer.
"Dim byd i neud!" – "Mae'n &%@! fan hyn" – "a sneb yn gwrando!" Gweithdy 2 awr yw Eich Llais, Eich Dewis a all eich helpu i ddod i wybod mwy am gael rhywun i wrando ar eich barn a'r dewisiadau yn eich grŵp ieuenctid lleol, eich ysgol neu weithgaredd newydd arall. Mae'n gyfle i ganfod mwy am gymryd rhan drwy gemau a gweithgareddau ac mae 'freebies' ar gael hefyd. Os nad oes neb yn gwrando arnoch chi, dewch draw! Mae cyfyngiad ar bresenoldeb yn y digwyddiad yma. Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** Ness, Sionedwyn, Nancy 01792 466231
**E-bost:** admin@dynamix.ltd.uk
www.dynamix.ltd.uk
**Cyswllt:** Dynamix Ltd, Unit 4D, Cwm Road, Hafod, Abertawe SA1 2AY

# CLYBIAU IEUENCTID AR DRAWS CYMRU

### Taith Fforwm Ieuenctid Byddar DEFFO

*Yn rhedeg yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid yn unig.*
Byddwn ni (Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain a fforwm ieuenctid DEFFO) yn hoffi cwrdd â chi (gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc) led Cymru er mwyn rhannu ein syniadau a'r sut y gallem gael ein cynnwys yn eich gwasanaethau, rhannu syniadau a chefnogi. Cewch gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel blasu Iaith Arwyddion Prydain, chwaraeon a dod i'n hadnabod (ieuenctid byddar a gweithwyr ieuenctid). Dewch draw i gael hwyl gyda'n gilydd!
Am wybodaeth bellach ynglŷn â lleoliadau, cysylltwch â Cathie Robins-Talbot yn: Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru, Canolfan Diwylliant BSL, 47 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AD.
**Ffôn:** Cathie Robins-Talbot 08451 302851
**E-bost:** cathier-t@bda.org.uk
www.bda.org.uk

Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys neu argaeledd y digwyddiadau a hyrwyddir yn y canllaw hwn, ac er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyflenwir yn gywir, argymhellwn eich bod yn cysylltu â'r trefnwyr i gadarnhau'r dyddiadau, amseroedd ac argaeledd cyn cychwyn teithio i ddigwyddiad.